DATGANIAD I'R WASG
Dydd Mawrth 1 Mehefin 2010

HUD A LLEDRITH LLEW

Dwynwen Lloyd Evans, Pennaeth Theatr Felinfach sydd yn cyfarwyddo'r sioe gynradd yn Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010 eleni. Bydd dros 150 o blant Ceredigion yn perfformio yn y sioe ar lwyfan Pafiliwn yr Eisteddfod yng Ngheredigion heno a nos yfory. Mae'r sioe wedi ei selio ar fywyd a gwaith brenin y storïwyr, T Llew Jones, fu farw'r llynedd.

Meddai Dwynwen:
"Mae'r stori yn dilyn Marged, sydd wedi gorfod mynd i'r gwely heb gael stori. Heb stori cyn cysgu, sut mae disgwyl i Marged freuddwydio, a heb freuddwydio, sut gall hi ddefnyddio ei dychymyg, a heb y dychymyg hwnnw sut gall hi chwarae, a gwneud ffrindiau, a chyfathrebu? Mae Marged yn cwrdd Tomos Llywelyn, cymeriad sy'n gwybod i'r dim lle i ffeindio stori, er ei awydd i hedfan yma ac acw drwy'r amser. Mae Tomos yn arwain Marged ar antur fawr, i ffeindio'r stori a ffeindio plant i chwarae. Maen nhw'n chwarae bod yn fôr-ladron, yn sipsiwn, yn lladron pen ffordd ac yn smyglwyr, oll yn gymeriadau amlwg iawn yng ngwaith T Llew Jones."

Awduron y sgript a'r caneuon yw Cerys Potter Jones, Gareth James, Pete Ebbsworth, Eirug Salisbury a Dwynwen ei hun. Cyfansoddwyd y gerddoriaeth gan gerddorion o Geredigion – Richard Jones o Fflach ac Ail Symudiad, Meilyr Jones, prif ganwr Racehorses, Delyth Hopkins, Bethan Bryn, Meinir Jones, Rhiannon Lewis a Dafydd Evans, aelod o Only Men Aloud.

Noddir y perfformiadau gan Y Post Brenhinol a Principality. Mae'r Urdd wedi derbyn grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru i lwyfannu'r sioe.

Meddai Nick Capaldi, Prif Weithredwr, Cyngor Celfyddydau Cymru:

"Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymroddedig i ddarparu llwyfan i bobl ifanc Cymru i brofi, a chymryd rhan yn y Celfyddydau, ac mae Urdd Gobaith Cymru yn ddarparwr pwysig a phrofiadol o gyfleoedd o'r fath. Rydyn ni wrth ein bodd ein bod yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Urdd ac yn buddsoddi yn y bobl ifanc heddiw, er mwyn datblygu creadigrwydd y genedl a meithrin perfformwyr a chynulleidfaoedd y dyfodol."

Meddai Aled Siôn, Cyfarwyddwr yr Eisteddfod a'r Celfyddydau Urdd Gobaith Cymru:
"Mae'r Urdd yn falch iawn o allu dathlu gwaddol T Llew Jones yn yr Eisteddfod eleni, a thalu gwrogaeth i frenin llyfrau plant. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i Gyngor Celfyddydau Cymru am eu cefnogaeth ariannol, ac i'r Post Brenhinol a Principality am noddi Lledrith Llew. Diolch hefyd i Dwynwen a'i thîm am eu gwaith caled. Rwy'n hyderus y bydd cynulleidfaoedd y

Pafiliwn yn cael gwledd heno a nos yfory, ac y bydd rhai o sêr yr Urdd yn y dyfodol yn cael eu blas cyntaf o berfformio ar lwyfan mawr yn Lledrith Llew."

Bydd y perfformiadau yn dechrau am 20:00yh ac mae rhai tocynnau ar gael o Swyddfa Docynnau'r Eisteddfod am £12.00 ac £8.00.

Diwedd

Manylion pellach: Siân Eleri Davies 07976 330360 neu Manon Llwyd 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant ac ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw un o wyliau ieuenctid celfyddydol mwyaf Ewrop.
- Bydd 40,000 o bobl ifanc yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys llefaru unigol, corau, dawns, celf a chrefft, cyfansoddi a barddoniaeth.
- Ar lwyfan yr Eisteddfod y gwnaeth sêr fel Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi a Daniel Evans fwrw eu prentisiaeth.
- Mae'r Eisteddfod yn denu 100,000 o ymwelwyr, 15,000 o gystadleuwyr a bron i filiwn o wylwyr teledu.
- Mae'r Eisteddfod yn cynnal rhaglen lawn o gystadlaethau yn ddyddiol rhwng 11.00 y bore hyd at 5.00 y prynhawn, a chystadlaethau gyda'r nos ar y nosweithiau Llun, Iau, Gwener a Sadwrn.
- Cynhelir Eisteddfod 2011 ym Mae Abertawe ac Eisteddfod 2012 yn Eryri.

PRESS RELEASE
Tuesday 1 June 2010

LLEDRITH LLEW CASTS A SPELL

Dwynwen Lloyd Evans, Head of Theatr Felinfach is producing this year's primary school pageant for the Urdd National Eisteddfod in Ceredigion. Just over 150 primary school children will take part in the show which will be performed this evening and tomorrow evening in the pavilion on the Maes in Llanerchaeron. The show is based on the life and works of T Llew Jones, the prolific children's writer who died last year.

Dwynwen outlines the story:

"The story follows Marged, who has to go to bed without a story. Without a bedtime story, how is Marged expected to dream and without dreaming, how can she use her imagination, and without that imagination how can she play and make friends and communicate? Marged meets Tomos Llywelyn, a character who knows full well where she can find a story, despite his penchant for flying here, there and everywhere. Tomos leads Marged on a great adventure to find the story as well as other children to play with – they play at being pirates, gypsies, highwaymen and smugglers, all of which feature heavily in T Llew Jones' work."

The script and lyric writers are Cerys Potter Jones, Gareth James, Pete Ebbsworth, Eirug Salisbury and Dwynwen herself. The music has been composed by a number of different musicians from Ceredigion – Richard Jones of Fflach and Ail Symudiad fame, Meilyr Jones,

lead singer of Racehorses, Delyth Hopkins, Bethan Bryn, Meinir Jones, Rhiannon Lewis and Dafydd Evans, a member of Only Men Aloud.

Both performances are sponsored by the Post Office and Principality. The Urdd has also received a grant from the Arts Council of Wales to stage the show.

Nick Capaldi, Chief Executive, Arts Council of Wales says:

"Arts Council of Wales is committed to providing young people in Wales with a stage to experience and participate in the arts, and Urdd Gobaith Cymru is an important and experienced provider of such opportunities. We are delighted to be partnering them in investing in the young people of today to develop the nation's creativity and nurture the performers and the audiences of the future."

Aled Sion, Urdd Gobaith Cymru Eisteddfod and Arts Director says:
"The Urdd is proud to be able to celebrate T Llew Jones' legacy in this Eisteddfod, and pay homage to the king of Welsh storytelling. We are extremely grateful to Arts Council of Wales for their financial support, and to the Post Office and Principality Building Society for sponsoring Lledrith Llew. We thank Dwynwen and her team for all their hard work. I'm confident that the audiences at the pavilion will have a feast tonight and tomorrow evening, and that many of the Urdd's future stars will have their first taste of performing on a large stage in Lledrith Llew."

The performances will begin at 20:00pm and a few tickets are available at the Eisteddfod ticket office, priced £12.00 and £8.00.

Ends

Further information: Siân Eleri Davies 07976 330360 or Manon Llwyd 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru is Wales' leading youth organisation.
- The Urdd has given children and young people exciting opportunities for over 80 years.
- The Urdd National Eisteddfod is one of the largest cultural youth festival in Europe.
- 40,000 young people will be competing in various competitions including recitation, choral singing, dance, arts and craft, composition and poetry.
- The Eisteddfod attracts over 100,000 visitors, 15,000 competitors and almost a million television viewers.
- Welsh stars such as Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi and Daniel Evans all gained valuable performing experience on the Urdd stage.
- The Eisteddfod offers wall to wall competitions between 11.00 - 5.00 and evening competitions on Monday, Thursday, Friday and Saturday.
- The Eisteddfod will be held in Swansea in 2011 and in Eryri in 2012.